# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Acrefair

Dyddiad yr arolygiad: 15/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Acrefair yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu. Mae arweinyddiaeth gref yn gosod cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol. Mae staff yn deall eu rolau'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, gan greu ymdeimlad cynnes o berthyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn teimlo'n hyderus ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae addysgu yn cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi difyr, yn defnyddio holi'n fedrus ac yn darparu adborth defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth, gwydnwch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill ac yn ymddwyn yn dda iawn, gan gyfrannu at amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog a difyr sy'n gwneud defnydd da iawn o'r ardal leol a phartneriaethau cymunedol. Mae hyn yn helpu disgyblion i fwynhau eu dysgu a deall sut mae'n cysylltu â phrofiadau bywyd go iawn. Un o'r cryfderau arbennig yw'r pwyslais ar ddatblygu ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth a pherthyn trwy gysylltiadau lleol, sy'n eu cymell ac yn eu helpu i gydnabod eu rôl o fewn eu cymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd da. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau ystod eang o destunau ac yn ysgrifennu at wahanol ddibenion. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu dychmygus, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn bob amser yn datblygu eu syniadau'n ddigon manwl. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol ac yn defnyddio technoleg ddigidol yn addas i gefnogi eu dysgu. Er bod disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg, nid yw llawer ohonynt yn siarad yr iaith yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Mae gan yr ysgol ddull cadarn ac effeithiol i gefnogi a gwella lles disgyblion. Mae perthnasoedd cryf, gwiriadau lles rheolaidd ac ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr yn helpu disgyblion i deimlo'u bod yn cael cefnogaeth, yn datblygu parch at bobl eraill ac yn tyfu i fod yn unigolion hyderus a meddylgar.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026